

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 29AIN O CHWEFROR YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Iona Edwards-Jones, Jill Evans, Falmai Evans, Elfed Williams a'r Clerc.

1 YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Stanley Williams, Gwennan Hughes, Barri Evans, Hywel Davies, Iwan Jones a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Ionawr 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau fod y ffens diogelwch ar y tir o flaen Ysgol Bro Cinmeirch, wedi eu hestynni bellach ac mae'r Cyngor Sir gan y plac y set gyhoeddus o flaen yr Ysgol.

B. Adroddwyd Cyngor Sir Ddinbych nad oes modd rhoi arwydd Ysgol Pant Pastynog wrth Eglwys Prion oherwydd y gyfraith. Mae'r Cyngor Sir wedi cam ddeall bod yr arwydd sydd yn cyfeirio ffyrdd tuag at Saron, Prion a Phant Pastynog sydd ar goll. Penderfynwyd y Clerc hysbysu'r Cyngor Sir am yr arwydd.

C. Nid mae'r Clerc wedi cael ymateb oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych am gopi o'r ddeddf sydd yn anatal Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr rhoi arwyddion o flaen y Siop. Cytunodd y Clerc i atgoffa'r Cyngor Sir.

D. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â materion ffyrdd yn y gymuned. Cytunodd y Clerc i atgoffa'r Cyngor Sir.

E. Adroddwyd Y Cyngorydd Philip Williams bod Esgobaeth Llanelwy yn trafod y mater o gael mynwent newydd i'r Eglwys Llanrhaeadr gyda'r Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £15,038.00.

B. Taliadau:-

1. Un Llais Cymru - Tal Aelodaeth Flynyddol 2016/17 - £129.00.

2. Queensbury Shelters am loches bws newydd i Saron - £4,338.00.

3. Cyngor Sir Ddinbych am ddau gyfarfod y Cyngor - £35.00.

4. Mr Llefelys Rees am waith walio ar wal y Gof Golofn yn Llanrhaeadr - £1,032.00.

5. CEISIADAU AM GEFNOGAETH ARIANNOL 2015/16 Y CYNGOR.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr aelodau cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol a rhoddwyd cais am gefnogaeth arian gan y Cyngor Cymuned:-

A Clwb-y-Pentan, Llanrhaeadr - £150.00.

B. Eglwys Dyfnog Sant Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch - £400.00.

C. Clwb Ti a Fi Prion - £100.00.

D. Cylch Meithrin Prion - £200.00.

E. Capel Saron - £200.00.

F. Ysgol Pant Pastynog - £500.00.

G. Cymdeithas Maes-y-Plwm - £150.00.

H. Urdd Gobaith Cymru (Cangen Dinbych) tuag at gostau teithio Dafydd Wyn Jones i Batagonia - £200.00.

6. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae'r cais cynllunio Fferm Wynt Llyn Brenig wedi mynd i'r apêl gan yr ymgeisydd Brenig Wind Limited ar ôl i'r cais cynllunio diweddar chael ei wrthod gan Gyngor Sir Ddinbych.

B. Cais Cynllunio am newid defnydd tir am bedwar cut bugail ar dir yn Springs Spa, Llanrhaeadr Hall, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad gan yr aelodau yn bresennol.

7. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd ymateb Un Llais Cymru i'r Ymgynghoriad ar y Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru).

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ar gerrig sydd wedi disgyn o'r wal yn Afon "Nant Mawr" wrth fynediad Bont-y-Bedol yn Llanrhaeadr.

B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y materion ffyrdd canlynol yn y gymuned:-

1. Problem mae'r llif yn achosi wrth y gyffordd Maes Hwylfa yn Llanrhaeadr sydd angen gwaith ar y ffordd i'w ddatrys.

2. Cyflwr y ffordd heibio'r Fron, Prion tuag at allt Saron.

3. Cyflwr y ffordd rhwng Capel Saron a phentref Saron.

C. Derbyniwyd adroddiad gan Y Cynghorydd Jill Evans fod Pen-y-bryn Joinery wedi gosod y Lloches Bws yn Saron.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 21ain o Fawrth 2016 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.